Adroddiad ar

Cylch Dinbych Uchaf

Capel Seion
Ffordd Henllan
Dinbych
LL16 3PE

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Dinbych Uchaf

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Dinbych Ucha |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Kayliegh Jones |
| Person â gofal | Eleri Owen |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun a Dydd Mawrth 07:45 – 17:30Dydd Mercher 07:45 – 16:30Dydd Iau 08:45 – 16:30Dydd Gwener 08:45 – 14:45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 04/12/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/07/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/07/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Ehangu’r defnydd o cwestiynau pen agored i ddyfnhau’r dysgu

A2 Cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael plant a staff

A3 Sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu adolygu ac eu diweddaru yn rheolaidd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf a maent yn cael cyfleoedd addas i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio'u hamser. Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio'u hamgylchedd yn ofalus a diogel gan ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn llwyddiannus. Maent yn gwneud dewisiadau'n addas ac yn manteisio ar y cyfle i symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd. Er enghraifft, maent yn penderfynu a ydynt am greu pitsa yn y gegin fwd neu ddraenog drwy daro pegiau â morthwyl i felon ddŵr. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar neu'n ddi-eiriau, ac yn mynegi eu hanghenion a'u syniadau'n glir. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ofyn am eu cwpan neu am gymorth i ddod o hyd i degan.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd. Caiff y nifer fach iawn o blant sydd ychydig yn dawel neu'n ofidus pan fyddant yn cyrraedd eu cefnogi'n effeithiol iawn gan ymarferwyr. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen golchi a sychu eu dwylo cyn bwyta

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n aeddfed yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn cymryd eu tro ac yn dechrau deall y pwysigrwydd o rannu adnoddau yn llwyddiannus gyda chefnogaeth. Er enghraifft, maent yn cydweithio wrth rannu adnoddau i beintio lindys. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur. Mae bron bob plentyn yn gwrtais tuag at ymarferwyr ac ymwelwyr.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant ac yn ymgysylltu'n dda â'u chwarae. Maent yn dilyn eu syniadau eu hunain, ac yn arbrofi ag adnoddau yn yr awyr agored. Maent yn manteisio'n dda ar gyfleoedd dysgu ysgogol sy'n eu hannog i archwilio a darganfod.

Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, maent yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn dewis pa ffrwyth yr hoffent ei fwyta.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos brwdfrydedd yn eu chwarae ac yn gwneud cynnydd priodol o’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf o blant yn arddangos dealltwriaeth dda ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ychydig ohonynt wedi datblygu hyder i fynegi eu hunain gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg.

Mae llawer o blant yn trin llyfrau’n hyderus ac yn mwynhau gwrando ar straeon, gan ymateb gyda diddordeb. Mae llawer yn gwneud marciau’n fwriadus gan ddefnyddio amrywiaeth o offer, megis sialc, paent a chreonau. Er enghraifft, yn yr ardal siop llysiau, maent yn ysgrifennu rhestri siopau, gan ddangos defnydd pwrpasol o ysgrifennu.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol yn briodol ac yn defnyddio iaith fathemategol sylfaenol yn eu chwarae. Maent yn cyfri allan darnau o arian wrth chwarae gyda thil, yn adnabod siapiau 2D a’u cyfateb i’w amlinelliad. Maent yn disgrifio nodweddion megis maint ac uchder yn hyderus wrth adeiladu tyrau o flociau gwahanol. Mae chwilfrydedd naturiol y plant yn eu hannog i archwilio ac arbrofi, er enghraifft wrth gymysgu lliw bwyd gyda dŵr, a chyfuno perlysiau a phridd i greu pastai yn y gegin fwd.

Mae medrau digidol llawer o’r plant yn datblygu’n briodol. Maent yn defnyddio sgrin ryngweithiol yn hyderus i dynnu lluniau a chreu darluniadau syml ac yn rhaglennu cerbyd i symud i wahanol gyfeiriadau.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Maent yn dangos rheolaeth wrth ddefnyddio offer ac yn symud yn hyderus, er enghraifft wrth gadw cydbwysedd ar lwybrau maent wedi eu creu. Maent hefyd yn trin gwrthrychau mân yn fedrus ac yn dangos dyfalbarhad wrth ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn defnyddio morthwyl i ddal a tharo hoelion pren i wrthrychau wahanol, ac yn gwasgu ac ymestyn toes i greu bwydydd ar gyfer parti.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drwyadl o’u rolau a’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant priodol, ac yn arddangos dealltwriaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad, gan gynnwys cadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol. Maent yn rhoi sylw cyson i hylendid y plant, gan eu hatgoffa’n rheolaidd i olchi eu dwylo ar adegau priodol. Maent yn annog plant i fwyta ac yfed yn iachus a chymryd rhan mewn

gweithgareddau corfforol yn rheolaidd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus a bywiog. Mae ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl dda i'r plant. Er enghraifft, maent yn canmol plant am dynnu llun neu am adeiladu castell tywod. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol, fel esbonio ac arddangos er mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin a hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion unigol y plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi plant a'u teuluoedd, ac mae gan y mwyafrif o ymarferwyr wybodaeth fanwl am ddatblygiad, diddordebau a gallu bob plentyn. Defnyddir yr wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio profiadau chwarae sy'n ymestyn dysgu a datblygiad y plant. Maent yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol, megis athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac yn gweithredu ar gyngor arbenigol pan fo angen. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae dulliau addysgu synhwyrol yr ymarferwyr yn annog y plant i chwarae’n fwriadus ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Maent yn ysgogi’r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau drwy weithgareddau diddorol sy’n eu hannog i fentro a datblygu medrau ymchwiliol.  Er enghraifft, maent yn creu kebabs ffrwythau neu’n peintio blodau haul yn arddull Vincent Van Gogh.

Gan amlaf, mae ymarferwyr yn ymyrryd yn fedrus yn ystod gweithgareddau ac yn cymell y plant i arbrofi. Trwy sgwrsio naturiol, maent yn cefnogi datblygiad syniadau’r plant. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’n ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, maent yn arbrofi cymysgu lliw gyda dŵr neu archwilio nodweddion lindys gan ddefnyddio chwyddwydrau.

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n ystyried diddordebau’r plant. Maent yn cynnwys cyfleoedd i ddilyn  awgrymiadau’r plant, megis tyfu llysiau a blodau. Mae cyd-gynllunio effeithiol yn sicrhau cyfleoedd ymarferol gwerthfawr, ac mae trafodaethau rheolaidd yn cefnogi dealltwriaeth glir o gynnydd a’r camau nesaf yn nysgu’r plant.

Yn yr arferion gorau, mae ymarferwyr yn defnyddio holi pwrpasol yn fedrus drwy ofyn cwestiynau agored sy'n datblygu medrau meddwl y plant ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r cwestiynu'n annog y plant i feddwl drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, drwy fod yn fodelau iaith da a thrwy sicrhau bod caneuon a rhigymau i'w clywed yn gyson. Maent yn datblygu dealltwriaeth y plant o iaith a chysyniadau rhifedd yn effeithiol, megis rhifo llysiau neu ddidoli gwrthrychau naturiol. Maent yn trafod cysyniadau fel mawr a bach, a hir a byr wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant, er enghraifft wrth gymharu yn y siop llysiau.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau digidol ar draws y lleoliad sy'n galluogi'r plant i'w defnyddio'n hyderus ac yn bwrpasol. Maent yn hyrwyddo datblygiad corfforol y plant yn llwyddiannus ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau creadigol ar gael i'r plant ymarfer creu marciau, paentio a chreu modelau syml. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi ac yn dathlu ymdrechion y plant drwy arddangos eu gwaith yn amlwg ar draws y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru trwy ddathliadau a storïau lleol. Caiff amrywiaeth ei ddathlu'n llwyddiannus drwy archwilio traddodiadau diwylliannol amrywiol a darllen testunau perthnasol. Mae gwybodaeth fuddiol am gynnydd y plant yn cael ei rhannu'n rheolaidd â rhieni a gofalwyr trwy drafodaethau, cyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau cyson.

### Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae ganddynt drefniadau addas ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel trwy ddilyn gweithdrefnau priodol, a llunio asesiadau risg pwrpasol. Maent yn ystyried risgiau yn ymwneud â gweithgareddau ac ymweliadau, ond yn deall pwysigrwydd bod cyfleoedd i blant gymryd risgiau diogel. Maent yn cadw cofnodion addas o bresenoldeb plant, ymarferwyr ac ymwelwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi amseroedd cyrraedd a gadael yn gyson.

Mae arweinwyr yn darparu ystafell chwarae sy'n gyfforddus a chysurus. Mae'r ystafell wedi'i threfnu'n dda ac yn caniatáu i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol ar gael, sydd wedi'u lleoli o fewn cyrraedd y plant. Mae hyn yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau ei ddefnyddio. Mae arweinwyr yn sicrhau bod creadigrwydd a llwyddiannau plant yn cael eu dathlu ar draws y lleoliad trwy

arddangosfeydd o'u gwaith ar y waliau. Maent yn creu ymdeimlad o berthyn drwy arddangos lluniau'r plant a ffotograffau o'u teuluoedd .

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, fel estyniad effeithiol i'r amgylchedd dysgu. Mae'r ardal yn cynnig cyfleoedd amrywiol i blant archwilio a datblygu eu medrau, gan gynnwys gwneud pitsa yn y gegin fwd ac archwilio yn yr ardaloedd tywod a dŵr. Yn ogystal, mae adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad corfforol ac echddygol yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i'r plant chwarae â thoes, i arbrofi ar ffrâm ddringo ac i ddefnyddio'r beiciau. Mae ymarferwyr yn meithrin amgylchedd sy'n hybu datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae modd i'r plant ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar ddodrefn priodol neu i ymuno a chyfnodau canu a thrafod teimladau ar y mat.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Mae dewis da o adnoddau, fel doliau a llyfrau, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ar ddathliadau a digwyddiadau megis Blwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y plant o ddathliadau amrywiol. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau amrywiol a phwrpasol sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant. Mae'r rhain wedi eu gosod ar lefelau isel i hybu annibyniaeth ac i sicrhau mynediad rhwydd at gyfarpar o safon sy'n adlewyrchu eu diddordebau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir. Maent yn gosod disgwyliadau uchel sy'n canolbwyntio'n gadarn ar greu amgylchedd lle gall bob plentyn ffynnu. Maent yn meithrin ethos cadarn o gydweithio, gan sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn deall ac yn ymrwymo i weledigaeth a nodau'r lleoliad. Mae rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr wedi eu diffinio'n glir, ac mae datganiad o ddiben eglur sy'n hysbysu teuluoedd am y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol, yn rhannu syniadau a myfyrio ar eu harferion, gan ymateb yn sensitif i anghenion y plant. Mae polisïau a gweithdrefnau defnyddiol ar waith, fodd bynnag nid ydynt yn diweddaru'r holl bolisïau angenrheidiol yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau recriwtio cadarn ac mae trefniadau sefydlu clir ar waith ar gyfer ymarferwyr newydd. Cynhelir goruchwyliaethau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n dechrau hyrwyddo diwylliant o fyfyrio. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygiad proffesiynol parhaus gyda chyfleoedd hyfforddiant gorfodol ac opsiynol sy'n adlewyrchu anghenion y tîm a'r plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso cadarn ac maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gosod targedau gwelliant clir yn

deillio o’r broses hon, er enghraifft datblygu’r ardal allanol a chryfhau gweithdrefnau amser snac. O ganlyniad, mae’r arweinwyr yn gweithredu gwelliannau’n systematig.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau’n effeithiol, gan ddefnyddio cyllideb a grantiau yn bwrpasol i gefnogi blaenoriaethau’r lleoliad. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid diweddar i ehangu adnoddau ac i osod cegin newydd gan gyfoethogi cyfleoedd i’r plant goginio a datblygu eu hymwybyddiaeth o fwydydd y byd.

Mae gan arweinwyr berthynas werthfawr â phartneriaid amrywiol. Maent yn trefnu ymweliadau gan wasanaethau’r gymuned, sydd yn cyfoethogi profiadau’r plant. Maent yn ystyried barnau pawb ac yn cynnal trafodaethau ystyrlon â rhieni, yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi. Maent yn cydweithio’n dda â rhieni i nodi anghenion a hoffterau unigol eu plant.  Mae gan arweinwyr berthynas gadarn gyda’r ysgol leol,  sy’n cefnogi’r plant yn effeithiol wrth iddynt symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2026